Rhyngwladol @ || International @

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Bywyd Campws
Campus Life

Chwiliwch am: CampusLifeSU

Rhifyn Gwanwyn 2024

# Newyddion GO!

| Darganfod - Cyfoethogi - Cysylltu |

## Annwyl Ddarllenydd

Croeso i rifyn Gwanwyn 2024 GO! News.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am yr holl bethau rydyn ni wedi'u trefnu ar eich cyfer chi, wrth i'r tywydd wella *gobeithio* ac wrth i'r dyddiau ymestyn.

Beth am ddathlu y tymor yn newid drwy ymuno â ni ar un o'n digwyddiadau/teithiau niferus sydd ar y gweill? Mae cymaint o ddewis, a rhywbeth sydd at ddant pawb gobeithio. Os oes gennych chi syniad, rhowch wybod i ni:
gosocial@swansea.ac.uk

Mae gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli ar gael hefyd, ynghyd â lle i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth.

Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Kayleigh, Beth

International@CampusLife







## International@CampusLife

Yma i helpu

Mae International@Campuslife (ICL) yma i helpu a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol gydag ymholiadau anacademaidd. Yn benodol, gallwn helpu gyda fisâu a mewnfudo, cwestiynau teulu rhyngwladol ac agweddau diwylliannol ar fyw yn y DU. Rydyn ni hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a datblygiad cymunedol drwy ein rhaglen GO!

Remember - we are here to support you! Please visit our website to explore our pages of advice and guidance, as well as details on how you can get in contact with us via email, Live Chat, ad hoc webinars or other online activities:

www.swansea.ac.uk/international-campuslife/

Mae Grŵp Croeso Rhyngwladol Swyddogol Prifysgol Abertawe ar Facebook, sydd wedi ymroi i groesawu myfyrwyr rhyngwladol newydd i'r brifysgol, a'u rhoi mewn cysylltiad â ffrindiau a chyd-fyfyrwyr ar eu cyrsiau. Cliciwch yma neu chwiliwch ar Facebook a dewch yn rhan o'n cymuned ryngwladol.

## Beth sydd ar y Gweill?

Bydd rhaglen y Gwanwyn yn llawn gweithgareddau hwyliog gan gynnwys nosweithiau ffilm, gemau bwrdd, dod i adnabod canol dinas Abertawe a'n teithiau poblogaidd.

Dyma restr o rai o'r digwyddiadau sydd ar y gweill:

- Gŵyl y Darlun Ehangach – 5 a 7 Mawrth
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – 8 Mawrth
- GO! Bwyta: Gallini's – 12 Mawrth
- Ffilm GO!: About a Boy – 15 Mawrth
- Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Gwledd o Gemau Bwrdd – 19 Mawrth
- Taith Gerdded GO!: Darganfod Abertawe – 20 Mawrth
- Taith GO!: Rhydychen – 23 Mawrth
- Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Gŵyl Holi – 25 Mawrth
- GO! Teulu: Helfa Drysor y Gwanwyn – 27 Mawrth
- Taith GO!: Talacharn a Saundersfoot – 3 Ebrill
- GO! Teulu: Plantasia – 5 Ebrill
- GO! Bwyta: Thai Bach – 11 Ebrill
- Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Bingo – 15 Ebrill
- Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Therapi Celf – 18 Ebrill
- Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Diwrnod y Ddaear – 22 Ebrill

Mae yna ddigwyddiad i bawb ei fwynhau, felly cadwch lygad am ddigwyddiadau i ddod. Mae'n bosib archebu pob digwyddiad yma:
https://events.swansea.su/group/313/campus-life

## GO! Edrych yn ôl

### GO! Taith: Birmingham



Mae teithiau GO! i ddinasoedd mawr y DU bob amser ymhlith digwyddiadau mwyaf poblogaidd International@CampusLife. Ar gyfer Blwyddyn Newydd y Lleuad, ymwelwyd ag ail ddinas fwyaf Prydain gyda hanes sy'n dyddio'n ôl dros gannoedd o flynyddoedd. Mae'r ddinas wedi dylanwadu'n sylweddol ar fywyd Prydain, gan ddod yn ganolfan masnach a diwydiant, diwylliant a thechnoleg, ac yn gartref i nifer o gymunedau rhyngwladol.

"Archwiliais fywyd dinas Lloegr a welais dân gwyllt ar gyfer Blwyddyn Newydd Lleuadol!"

"Es i i Cadbury World a National Sea Life. Roedd yn ddinas brydferth"

"Roedd Birmingham yn ddinas fywiog iawn. Uchafbwynt y daith oedd ymweld ag adeilad enwog y ddinas, y Ganolfan siopa Bullring. Ar y cyfan, wnaeth Birmingham cynnig amrywiaeth hyfryd o gelf, bwyd a naws dinesig, felly yn ei wneud yn lleoliad bythgofiadwy."

## Cyfarfod Tîm GO!

**Ym mhob rhifyn, rydyn ni'n cyfarfod ag aelod arall o Dîm GO!**



**Enw:** Sukriti Jacob

**Cwrs:** MSc Rheoli (Dadansoddeg Busnes)

**Cenedligrwydd:** Indiaidd

**Pam wnaethoch chi ddewis astudio ym Mhrifysgol Abertawe?** Roeddwn i'n hoff iawn o gwricwlwm y cwrs ar gyfer fy rhaglen, ac yn ystod y broses dderbyn, fe wnes i dderbyn cefnogaeth ragweithiol ac arweiniad da drwyddi draw. Rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr gan na ches i'r un profiad gyda phrifysgolion eraill i mi wneud cais i astudio iddyn nhw. Roeddwn i hefyd wrth fy modd â lleoliad y brifysgol ar lan y môr.

**Pam wnaethoch chi benderfynu gwirfoddoli fel aelod o Dîm GO!?** Fe wnes i gyfarfod â'r Tîm GO! yn ystod digwyddiad croesawu, ac roedd yn gyfle gwych i fi fynd allan o'm cylch cysur a rhyngweithio â phobl newydd. Roedd y rôl hefyd yn gyfle i fi wella profiad prifysgol myfyrwyr rhyngwladol.

**Beth ydych chi'n ei weld fel eich prif rôl fel aelod o Dîm GO!?** Rwy'n edrych ar fy rôl fel gwaith gweithiwr cymorth, a sicrhau bod digwyddiadau Tîm GO! yn llwyddo. Yn sgil hynny wedyn, rwy'n ystyried fy hun yn llysgennad hefyd i dynnu sylw pob myfyriwr dwi'n ei gyfarfod at gyfleoedd, digwyddiadau a'r gwaith y mae'r tîm yn ei wneud.

**Beth sy'n gwneud aelod da o Dîm GO!?** Mae angen i aelod o Dîm GO! fod yn barod i ryngweithio â phobl a meithrin agwedd gadarnhaol ac ymddiddori yn eu straeon, bod yn hyblyg ac yn fodlon rhoi cynnig ar brofiadau newydd, a bod yn brydlon!

**Beth yw'r peth gorau am fod yn rhan o Dîm GO! hyd yn hyn?** Y peth gorau fu'r cyfle amhrisiadwy i ddatblygu set amrywiol o sgiliau. Drwy drefnu digwyddiadau, achlysuron cymdeithasol, tripiau a gwyliau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ym Mhrifysgol Abertawe, dwi wedi mireinio fy sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm ac arwain. Yn ogystal, mae rhyngweithio â myfyrwyr o wahanol gyfadrannau wedi gwella fy nirnadaeth ddiwylliannol a'm gallu i addasu, ac wedi cyfoethogi fy mhrofiad prifysgol y tu hwnt i gyfyngiadau fy ngwaith cwrs academaidd.

**Pam ydych chi'n meddwl y dylai myfyrwyr eraill wneud cais i fod yn rhan o Dîm GO!?** Mae'n cynnig cyfle unigryw i ehangu gorwelion a datblygu sgiliau hanfodol y tu hwnt i'r byd academaidd. Drwy ymgysylltu â chymuned amrywiol o fyfyrwyr rhyngwladol a threfnu digwyddiadau a gweithgareddau, mae aelodau nid yn unig yn cyfrannu at ddiwylliant bywiog y campws ond hefyd yn gwella eu galluoedd cyfathrebu, trefnu ac arwain. Ar ben hynny, mae'r cyfle i rwydweithio a chydweithio â myfyrwyr o wahanol gyfadrannau'n meithrin ymdeimlad o gynwysoldeb a chymuned, gan gyfoethogi'r profiad prifysgol cyffredinol.

## Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

**Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gyfarfod â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chwarae rhan yn y gymuned.**

**Os hoffech chi wirfoddoli fel aelod o Dîm GO! , a'ch bod am gael gwybodaeth bellach, cofrestrwch ar gyfer cyfrif canfod a chofrestrwch i fod yn wirfoddolwr Tîm GO! yma: https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/10193151 neu e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk.**



## GO! Bwyta | Cost £10 (fel arfer)

Ers i ni ddechrau ychydig flynyddoedd yn ôl, mae nosweithiau bwyta GO! wedi mynd o nerth i nerth – mae myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr cartref wedi ymgynnull mewn bwytai gwahanol yn Abertawe bob mis i fwynhau bwyd o bob cwr o'r byd, ac i gyfarfod â ffrindiau newydd hefyd! Bydd y bwyty sy'n ein croesawu ni fel arfer yn darparu bwydlen osod o £10 i ni ac mae yna ddigonedd o fwyd bob amser! Mae nosweithiau bwyta GO! yn cael eu hysbysebu ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac mae tocynnau'n cael eu gwerthu drwy https://events.swansea.su/group/313/campus-life



## 5 Cestyll lleol i ymweld â nhw:

- Castell Ystumllwynarth – mewn lleoliad urddasol ar y bryn yn y Mwmbwls, gyda golygfeydd godidog ar draws Bae Abertawe. Mae'n ail-agor yn y gwanwyn
- Castell Pennard – mae Castell Pennard mewn lleoliad dramatig a phrydferth. Mae ar ymyl dyffryn Nant Pennard, gyda dibyn serth oddi tano i'r gogledd a'r gorllewin.
- Castell Caerdydd – neidiwch ar drên ac ymweld â phrif gastell ein prifddinas.
- Castell Weble – maenordy caerog o'r 14eg ganrif ar Benrhy Gŵyr sy'n edrych allan dros forfeydd heli Llanrhidian ac aber afon Llwchwr.
- Castell Margam – gallwch ymweld â'r plasty Gothig hwn o'r 19eg ganrif ar dir Parc Gwledig Margam.

## Dydd Mercher Lles

Ymunwch â Welfare@CampusLife ar gyfer Dydd Mercher Lles, 11am -12pm, yn ardal stiwdio Creu Taliesin. Cadwch lygad am fanylion llawn ar Native

Dewch i gael diod boeth a sgwrs a rhowch wybod i ni beth rydych chi'n ei wneud i ofalu am eich Lles a sut gallwn ni helpu gyda hynny tra byddwch chi yma ym Mhrifysgol Abertawe.